

## HUGHES, JOHN (1873 - 1932), cyfansoddwr yr emyn-dôn 'Cwm Rhondda ' -

**Enw:** John Hughes  
**Dyddiad geni:** 1873  
**Dyddiad marw:** 1932  
**Priod:** Hannah Maria Hughes (née David)  
**Rhiant:** Evan Hughes  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cyfansoddwr yr emyn-dôn 'Cwm Rhondda '  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Cerddoriaeth  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 22 Tachwedd 1873 yn Nowlais; mab hynaf Evan Hughes. Symudodd ei rieni i Holly Bush, Llanilltud Faerdref (Llantwit Fardre) yn 1874. Yr oedd ei dad yn ddiakon ac yn arweinydd y gân yn Salem, capel y Bedyddwyr yno. Dechreuodd John Hughes weithio mewn pwll glo pan oedd yn 12 oed, yna bu'n glerc, ac yn olaf yn swyddog ym mhwl glôr Great Western ym Mhontypridd. Priododd (1905) Hannah Maria David, a bu iddynt fab a merch. Fel ei dad, daeth yn ddiakon ac arweinydd y gân yng nghapel Salem. Cyfansoddodd ei emyn-dôn enwog ar gyfer cyfarfodydd dathlu yn 1907 yng nghapel Rhondda, Pontypridd. Fodd bynnag, nid oedd ' Cwm Rhondda ' ond un o lawer o emyn-donau, anthemau a chaneuon a gyfansoddodd. Bu farw yn Nhon-togau, Llanilltud Faerdref, 14 Mai 1932.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Gwybodaeth gan ei fab, Mr. Gwyn D. Hughes, Llanharry

### Darllen Pellach

Huw Williams, *Y Goleuad*, 22 June 1990, 6

Treorchy Male Choir: *Cwm Rhondda: The Second Welsh Anthem*

Gareth Williams, 'Cwm Rhondda', *Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru* (Talybont 2018), tt.112-113

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29730541

Wikidata: Q17309163

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1970). HUGHES, JOHN (1873 - 1932), cyfansoddwr yr emyn-dôn 'Cwm Rhondda '. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-HUGH-JOH-1873>

frannu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government